
# Plastig


Dyfeisiwyd plastig gan ddyn o'r enw Alexander Parkes yn 1855. Defnyddiodd rhai deunyddiau naturiol i wneud ei blastig. Yna yn 1907, fe wnaeth dyn o wlad Belg, Leo Baekeland, ddyfeisio plastig synthetig. Ar ôl yr Ail Ryfel Byd cafodd eu gor-gynhrychu i wneud setiau teledu, dodrefn a theganau. Mae plastig yn ddefnydd defnyddiol. Mae'n atal aer rhag mynd mewn i bethau fel bocsys bwyd. Mae'n wrth-ddŵr ac felly gellid ei ddefnyddio i wneud darnau o geir a phibau. Mae plastig o'n cwmpas ym mhob man. Dyma rai pethau sy'n cael eu gwneud o blastig: poteli plastig, teganau a deunyddiau ysgrifennu.





**Cynhyrchu plastig**


Mae plastig yn ddeunydd gwneuthuredig neu synthetig ydy plastig. Mae plastigau yn ddeunyddiau gwneuthuredig oherwydd ei fod yn cael ei wneud trwy drin olew (sy'n ddeunydd naturiol) gyda chemegion. I gynhyrchu plastig rhaid defnyddio deunyddiau naturiol fel glo, nwy naturiol ac olew craidd. Mae'r tanwydd ffosil yma yn cael ei gloddio o dan y ddaear sy'n cymryd miliynau o flynyddoedd sy'n golygu na fydd yr adnoddau hyn ar gael am byth. Caiff nwyon peryglus eu rhyddhau i'r aer wrth gynhyrchu plastig ac mae hyn yn cyfrannu at yr effaith cynhesu byd eang. Mae dros 300 miliwn tunnell o blastig yn cael eu cynhyrchu bob blwyddyn. Bydd yn effeithio ar y ddaear yn fawr.



**Beth sy'n digwydd i blastig nad oes ei angen mwyach?**

Mae plastig yn hynod o wydn ond nid yw'n fioddiraddadwy. Nid yw'n pydru fel ffrwythau, llysiau a chig. Mae hyn yn broblem fawr. Os caiff eu llosgi, mae'n rhyddhau nwyon niweidiol i'r atmosffer. Mae hyn yn achosi llygredd aer. Y broblem fwyaf gyda phlastig yw'r llygredd a'r niwed i'r amgylchedd y mae'n

achosi. Mae plastig yn gallu torri'n ddarnau bach, sy'n cael eu chwythu gan y gwynt a'r glaw. Mae llawer iawn o blastig yn mynd i mewn i'n afonydd a'r môr. Mae plastig yn niweidiol iawn i greaduriaid sy'n byw yn yr amgylcheddau yma. Maen nhw'n nail ai'n mynd yn sownd ynddo neu yn ei fwyta sy'n gallu eu lladd.



**Penawdau newyddion**

Mae'r newyddion yn llawn penawdau tebyg i hyn:-

- Caiff rhyw filiwn o boteli plastig eu prynu bob munud ledled y byd. (The Guardian, Mehefin 2017)
- Yn ôl ymchwil a wnaed gan Sefydliad Ellen MacArthur erbyn 2050 bydd mwy o blastig yn y môr na physod. (The Guardian, Mehefin 2017)




**Y dyfodol**

Felly, beth allwn ni wneud i helpu'r sefyllfa? Poteli dŵr sydd i'w gweld fwyaf yn y môr a dyma un o brif achosion llygredd yr amgylchedd. Felly, beth am yfed dŵr o wydr neu ddefnyddio potel y gallwch ail-lenwi. Beth am ail ddefnyddio bag siopa plastig neu ddefnyddio rhai o ddefnyddiau gwahanol. Yn ddiweddar, mae rhai pobl wedi dechrau gofyn i'r dyn llaeth ddosbarthu llaeth i'r stepen drws unwaith yn rhagor. Drwy wneud y newidiadau yma nawr, y gallwn wneud gwahaniaeth i'n daear. Meddyliwch, beth yr ydych chi'n ailgylchu ac ailddefnyddio yn yr ysgol ac adref?








# Plastig


Dyfeisiwyd plastig gan ddyn o'r enw Alexander Parkes yn 1855. Defnyddiodd rhai deunyddiau naturiol i wneud ei blastig. Yna yn 1907, fe wnaeth dyn o wlad Belg, Leo Baekeland, ddyfeisio plastig synthetig. Cafodd ei greu yn defnyddio cemegau hydrocarbon. Ar ôl yr Ail Ryfel Byd cafodd eu gor-gynhrychu i wneud setiau teledu, gemwaith, dodrefn a theganau. Mae plastig yn ddefnydd defnyddiol. Mae'n atal aer rhag mynd mewn i bethau fel cynhwysyddion bwyd. Mae'n wrth-ddŵr ac felly gellid ei ddefnyddio i wneud amrywiaeth helaeth o bethau fel ceir a phibau yn ogystal â gwaith celf a chrefft. Mae plastig o'n cwmpas ym mhob man. Dyma rai pethau sy'n cael eu gwneud o blastig: poteli plastig, teganau a deunyddiau ysgrifennu.






**Cynhyrchu plastig**

Mae plastig yn ddeunydd gwneuthuredig neu synthetig. Mae plastigau yn ddeunyddiau gwneuthuredig oherwydd ei fod yn cael ei wneud drwy drin olew (sy'n ddeunydd naturiol) gyda chemegion. I gynhyrchu plastig rhaid defnyddio deunyddiau naturiol fel glo, nwy naturiol ac olew craidd. Mae'r tanwydd ffosil yma yn cael ei gloddio o dan y ddaear. Mae tanwyddau ffosil yn cymryd miliynau o flynyddoedd i ffurfio, sy'n golygu na fydd yr adnoddau hyn ar gael am byth. Caiff nwyon peryglus eu rhyddhau i'r aer wrth gynhyrchu plastig ac mae hyn yn cyfrannu at yr effaith cynhesu byd eang. Mae dros 300 miliwn tunnell o blastig yn cael eu cynhyrchu bob blwyddyn. Erbyn diwedd y ganrif, bydd 30 biliwn tunnell wedi cael eu cynhyrchu. Bydd hyn yn effeithio ar y ddaear yn fawr.



**Beth sy'n digwydd i blastig nad oes ei angen mwyach?**



Mae plastig yn hynod o wydn ond nid yw'n fioddiraddadwy. Nid yw'n pydru fel ffrwythau, llysiau a chig. Mae hyn yn broblem fawr. Os caiff eu llosgi, mae'n rhyddhau nwyon niweidiol i'r atmosffer. Mae hyn yn achosi llygredd aer. Mae fel arfer yn cael eu claddu mewn tomenni sbwriel enfawr. Mae yna ymdrech i greu plastig sydd yn fioddiraddadwy. Y broblem fwyaf gyda phlastig yw'r llygredd a'r niwed i'r amgylchedd y mae'n achosi. Mae plastig yn gallu torri'n ddarnau bach, sy'n cael eu chwythu gan y gwynt a'r glaw. Mae llawer iawn o blastig yn mynd i mewn i'n afonydd a'r môr. Mae plastig yn niweidiol iawn i greaduriaid sy'n byw yn yr amgylcheddau yma. Maen nhw'n nail ai'n mynd yn sownd ynddo neu yn ei fwyta sy'n gallu eu lladd.



**Penawdau newyddion**

Mae'r newyddion yn llawn penawdau tebyg i hyn:-

- Caiff rhyw filiwn o boteli plastig eu prynu bob munud ledled y byd. (The Guardian, Mehefin 2017)
- Mae yna 6.3 biliwn tunnell o wastraff plastig ar ein daear. (The Telegraph Uk, Rhagfyr 2017)
- Yn ôl ymchwil a wnaed gan Sefydliad Ellen MacArthur erbyn 2050 bydd mwy o blastig yn y môr na physod. (The Guardian, Mehefin 2017)


**Y dyfodol**

Felly, beth allwn ni wneud i helpu'r sefyllfa? Poteli dŵr sydd i'w gweld fwyaf yn y môr a dyma un o brif achosion llygredd yr amgylchedd. Felly, beth am yfed dŵr o wydr neu ddefnyddio potel y gallwch ail-lenwi. Mae yna ymdrech i ail ddefnyddio bagiau plastig ac ers Hydref 2011 mae deddf yng Nghymru sy'n rhoi'r hawl i siopau i godi tâl o 5c am bob bag plastig bach. Yn ddiweddar mae rhai pobl wedi dechrau gofyn i'r dyn llaeth ddosbarthu llaeth i'r stepen drws

unwaith yn rhagor. Mewn pentref glan môr o'r enw Tresaith, yng Ngheredigion maent wedi dechrau ymgyrch i fod y pentref di-blastig cyntaf yng Nghymru. Drwy wneud y newidiadau yma nawr, y gallwn wneud gwahaniaeth i'n daear. Meddyliwch, beth yr ydych chi'n ailgylchu ac ailddefnyddio yn yr ysgol ac adref?









# Plastig


Dyfeisiwyd plastig gan ddyn o'r enw Alexander Parkes yn 1855. Defnyddiodd rhai deunyddiau naturiol i wneud ei blastig. Yna yn 1907, fe wnaeth dyn o wlad Belg, Leo Baekeland oedd yn byw yn Efrog Newydd, ddyfeisio plastig synthetig a enwodd yn 'Bakelite.' Cafodd ei greu drwy ddefnyddio cemegau hydrocarbon. Ar ôl yr Ail Ryfel Byd cafodd eu gor-gynhrychu i wneud setiau teledu, gemwaith, dodrefn a theganau. Mae plastig yn ddefnydd defnyddiol. Mae'n atal aer rhag mynd mewn i bethau fel cynhwysyddion bwyd. Mae'n wrth-ddŵr ac felly gellid ei ddefnyddio i wneud amrywiaeth helaeth o bethau fel cadeiriau, ceir a phibau yn ogystal â gwaith celf a chrefft. Mae plastig o'n cwmpas ym mhob man. Dyma rai pethau sy'n cael eu gwneud o blastig: poteli plastig, teganau, deunyddiau ysgrifennu a thechnoleg.






Mae plastig yn ddeunydd gwneuthuredig neu synthetig. Mae sawl math o blastig gwahanol. Mae plastigau yn ddeunyddiau gwneuthuredig oherwydd eu bod yn cael eu gwneud trwy drin olew (sy'n ddeunydd naturiol) gyda chemegion. I gynhyrchu plastig rhaid defnyddio deunyddiau naturiol fel glo, nwy naturiol ac olew craidd. Mae'r tanwydd ffosil yma yn cael ei gloddio o dan y ddaear. Mae tanwyddau ffosil yn cymryd miliynau o flynyddoedd i ffurfio, sy'n golygu na fydd yr adnoddau hyn ar gael am byth. Caiff nwyon peryglus eu rhyddhau i'r aer wrth gynhyrchu plastig ac mae hyn yn cyfrannu at yr effaith cynhesu byd eang. Mae dros 300 miliwn tunnell o blastig yn cael eu cynhyrchu bob blwyddyn. Mae'r ffigwr hyn yn debyg iawn i bwysau'r holl fodau dynol sy'n byw ar y ddaear. Erbyn diwedd y ganrif, bydd 30 biliwn tunnell wedi cael eu cynhyrchu. Bydd hyn yn effeithio ar y ddaear yn fawr.





Mae plastig yn hynod o wydn ond nid yw'n fioddiraddadwy. Nid yw'n pydru fel ffrwythau, llysiau a chig. Mae cael gwared ar y plastig nad oes angen mwyach yn broblem enfawr. Os caiff eu llosgi, mae'n rhyddhau nwyon niweidiol i'r atmosffer. Mae hyn yn achosi llygredd aer. Mae fel arfer yn cael eu claddu mewn tomenni sbwriel enfawr ar safle gwaredu sbwriel. Er nad ydym yn eu gweld, mae dal yno ac yn aros yno am ddegawdau. Mae yna ymdrech i greu plastig sydd yn fioddiraddadwy. Y broblem fwyaf gyda phlastig yw'r llygredd a'r niwed i'r amgylchedd y mae'n achosi. Mae plastig yn gallu torri'n ddarnau bach, sy'n cael eu chwythu gan y gwynt a'r glaw. Mae llawer iawn o blastig yn mynd i mewn i'n nentydd, afonydd a'r môr. Mae plastig yn niweidiol iawn i greaduriaid sy'n byw yn yr amgylcheddau yma. Maen nhw'n nail ai'n mynd yn sownd yn y plastig neu yn ei fwyta sy'n gallu eu lladd.



Mae'r newyddion yn llawn penawdau tebyg i hyn:-

- Caiff rhyw filiwn o boteli plastig eu prynu bob munud ledled y byd. (The Guardian, Mehefin 2017)
- Amcangyfrir bod 50% o'r holl blastig a ddefnyddir yn cael ei ddefnyddio unwaith yn unig. (The Plastic Ocean Foundaiton)
- Mae yna 6.3 biliwn tunnell o wastraff plastig ar ein daear. (The Telegraph Uk, Rhagfyr 2017)
- Yn ôl ymchwil a wnaed gan Sefydliad Ellen MacArthur erbyn 2050 bydd mwy o blastig yn y môr na physod. (The Guardian, Mehefin 2017)

Felly, beth allwn ni wneud i helpu'r sefyllfa? Poteli dŵr sydd i'w gweld fwyaf yn y môr a dyma un o brif achosion llygredd yr amgylchedd. Felly, beth am yfed dŵr o wydr neu ddefnyddio potel y gallwch ail-lenwi. Mae yna ymdrech i ail ddefnyddio bagiau plastig ac ers Hydref 2011 mae deddf yng Nghymru sy'n

rhoi'r hawl i siopau i godi tâl o 5c am bob bag plastig bach a 10c am y bagiau y gellid ail-ddefnyddio. Yn ddiweddar, mae rhai pobl wedi dechrau gofyn i'r dyn llaeth ddosbarthu llaeth i'r stepen drws unwaith yn rhagor. Mewn pentref glan môr o'r enw Tresaith, yng Ngheredigion maent wedi dechrau ymgyrch i fod y pentref di-blastig cyntaf yng Nghymru. Drwy wneud y newidiadau yma nawr, y gallwn wneud gwahaniaeth i'n daear. Meddyliwch, beth yr ydych chi'n ailgylchu ac ailddefnyddio yn yr ysgol ac adref?





